

## CARADOG ab IESTYN (fl. 1130), sylfaenydd teulu 'Avene' ym Morgannwg

**Enw:** Caradog ab Iestyn  
**Priod:** Gwladus ferch Gruffydd  
**Plentyn:** Owain ap Caradog ap Iestyn  
**Plentyn:** Cadwallon ap Caradog ap Iestyn  
**Plentyn:** Maredudd ap Caradog ap Iestyn  
**Plentyn:** Morgan ap Caradog ap Iestyn  
**Rhiant:** Iestyn ap Gwrgant  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** sylfaenydd teulu 'Avene' ym Morgannwg  
**Maes gweithgaredd:** Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig  
**Awdur:** John Edward Lloyd

Mab [Iestyn ap Gwrgant](#). Gyr haneswyr amdano am fod dau gyfeiriad ato yn 'Llyfr Llandaf.' Yn y cyntaf enwir ef ymysg y gwrllewg mewn siarter sydd yn tystio i [Caradog ap Gruffydd](#) (bu farw 1081) roddi tir yn Edlygion i'r esgob Herwald; yn yr ail disgrifir ef yn bennaeth a chanddo lu rhyfel y gwnaeth ef iawn i'r unrhyw esgob oblegid drwgweithredoedd y lluhwn gan roddi iddo faenor yn nyffryn afon Elai. Ymddengys, felly, i [Iestyn](#), ar ôl marw [Caradog](#), esgyn o ddinodedd a dyfod yn [arglwydd Morgannwg](#) ac mai efe ydoedd y tywysog a fwrwyd allan gan y Normaniaid pan ymosodasant ar yr ardal tua'r flwyddyn 1090. Rhaid, fodd bynnag, wrthod derbyn adroddiad manwl y gorchfygu a geir gan [David Powell](#) yn ei *Historie* (1584), gan na cheir tystiolaeth yn unman arall yn ei ategu.

Nid oes ond un cyfeiriad cyfoes at Garadog; gyda'i frodyr Gruffydd a Goronwy bu iddo ran a chyfran yn 1127 mewn gweithred drahaus na wyddys ddim yn sicr am yr amgylchiadau y cyflawnwyd hi ynddynt. Eithr y mae'n gwbl sicr iddo, ar ôl i lywodraeth [Iestyn](#) gwmpo, dderbyn gan [Robert Fitz Hamon](#) y wlad rhwng Nedd ac Afan (ac, efallai, fwy na hynny) fel daliad isradd, ac i'w olynwyr gadw'r daliad hwn am amryw genedlaethau.

Trwy ei wraig, Gwladus, ferch [Gruffydd ap Rhys](#), bu iddo bedwar mab - [Morgan](#), Maredudd, Owain, a Cadwallon; dilynwyd ef yn Aberafan gan [Morgan](#).

### Awdur

Syr John Edward Lloyd, (1861 - 1947)

### Ffynonellau

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), 402, 440, 504, 572

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Caradog ab Iestyn](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18526703](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

